PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 8 TACHWEDD 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Richard Cook (Cadeirydd),<br>Y Cynghorwyr Boyle, Chaundy, Gordon, Joyce, Murphy, Dianne Rees a/ac Lynda Thorne |
| : | Aelodau Cyfetholedig: Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) |

31 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Patricia Arlotte a Carol Cobert.

32 : DATGAN BUDDIANNAU

Bu i'r Cynghorydd Boyle ddatgan buddiant personol mewn eitem agenda 4 a 5 ar y sail bod ganddo aelodau teulu ag awtistiaeth ac mae'n ymddiriedolwr i Elusen Halycon, sy'n cynnig gwasanaethau cynorthwyo awtistiaeth, ac mae wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf.

33 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

34 : GWASANAETH IECHYD PLANT A'R GLASOED MEDDWL (CAMHS)

Bu i'r Cadeirydd groesawu Rosemary Whittle, Pennaeth Gweithredu A Darparu yng Nghyfarwyddiaeth Iechyd Plant Cymunedol a Dr Tracy Gardiner, Cyfarwyddwr Clinigol rhwydwaith CAMHS i'r cyfarfod i roi briff a diweddariad am wasanaethau CAMHS fel y'u rhoddwyd gan Wasanaeth Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn benodol yn elfennau canlynol y gwasanaeth hwnnw:

- Gwasanaeth Lles Addysg;
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cyntaf (yn cynnwys Mesur Iechyd Meddwl – Rhan 1);
- Gwasanaeth Niwroddatblygu;
- CAMHS Eilradd (darparwr Cwm Taf).

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Holodd Aelodau a oedd digon o gymorth gan sefydliadau eraill i ymdrin ag ymyrraeth gynnar a chynorthwyo'r rhai ag anghenion llai dwys a chawsant eu cynghori bod llawer o waith ar y cyd gyda sectorau'r 3ydd sector.
  Fodd bynnag, derbyniwyd bod straen meddwl, gorbryder a tharfu emosiynol ar bobl ifanc yn broblem gynyddol gyda phlant ac mae'n bwysig ymyrryd ar yr

amser cywir. Byddai map sy'n rhoi gwybodaeth ynghylch pwy a pha wasanaeth y dylid cysylltu â nhw.

Rhoddwyd gwybod i aelodau y credir mai nifer y plant yn hytrach na'r diffyg yn y gwasanaeth y dylid mynd i'r afael ag e. Bu pryderon y byddai'r Gwasanaeth Lles Addysg yn cael ei foddi ac mae'n deg dweud bod diffygion posibl yn parhau yn y prosesau atgyfeirio, asesu a chefnogi ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio, trwy ei brosesau cynllunio, adnabod y diffygion hynny a'u bwydo nhw i'r cam cynllunio nesaf.

- Cynghorwyd aelodau bod proses dendro benodol cyn comisiynu Newid, Tyfu, Byw; mae hwn yn sefydliad cenedlaethol sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a lles emosiynol yng Nghaerdydd.

- Cynghorwyd Aelodau mai nod y Gwasanaeth Lles Addysg oedd ceisio osgoi rhagfarn ac enw drwg trwy adael i blant a phobl ifanc eu hatgyfeirio eu hunain neu adael i ysgolion wneud hynny.
  Yn ogystal, gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg, mae polisi nad oes unrhyw 'ddrwgweithredwr' oherwydd y gellir trafod y llwybrau/gwasanaethau eraill sydd ar gael.

- Bu i Aelodau fynegi pryder bod y rhif ffôn a roddwyd i gysylltu â'r tîm yn ystod y nos yn galw'r switsfwrdd yn Ysbyty Athrofaol Cymru a holiwyd oni ddylid cael rhif ffôn penodol.
  Cynghorodd swyddogion y gellid cysylltu â'r Tîm Argyfwng trwy'r Ysbyty Athrofaol Cymru petai argyfwng difrifol, fel arall byddai'r Gwasanaeth Lles Addysg yn ceisio cysylltu â'r person ifanc cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, teimlid y dylid trafod hyn ymhellach.

- Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod yr arian ychwanegol gan y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru yn barhaol.

- Holodd Aelodau am y ffigwr o 596 atgyfeiriad i'r Gwasanaeth NDS ers 1 Mehefin a chynghorwyd bod y ffigwr yn gywir.
  Yn flaenorol, efallai nad oedd y rhifau'n glir oherwydd yr âi'r atgyfeiriadau'n uniongyrchol at y Meddygon Plant Cymunedol. Mynegodd aelodau bryderon ynghylch capasiti o ystyried y niferoedd, a rhoddodd swyddogion wybod bod Tîm Iechyd Plant Cymunedol yn cynnig gwasanaeth er mai bychan yw'r tîm. Mae cymorth cydweithredol yn angenrheidiol.

- Rhoddwyd gwybod i Aelodau ei bod yn glir y dylai'r broses ddiagnosis fod yn fyrrach, ac mae disgwyl y dylid casglu'r holl wybodaeth mewn achos plant, ac y dylai'r wybodaeth fod ar gael ar gyfer yr Ymgynghorydd Allanol ar amser y cyfarfod â'r plant.

- Gofynnodd Aelodau am wybodaeth ynghylch faint o'r 596 atgyfeiriad a fyddai gan Feddygol Teulu a faint fyddai gan ysgolion.
  Dywedodd Swyddogion fod rhan fwyaf yr atgyfeiriadau gan y Meddygon Teulu, fodd bynnag, cysylltir ag ysgolion ym mhob achos, waeth o ba le y daw'r atgyfeiriad. Rhoddwyd gwybod hefyd i swyddogion bod y NDS a'r Cydlynydd PMH yn Ysbyty Dewi Sant ac y gellir cysylltu â nhw bob amser.

CYTUNWYD – Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at Bennaeth Gweithredu a Darparu Cyfarwyddiaeth Iechyd Plant Cymunedol yn diolch iddi am fynychu'r cyfarfod ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

35 : IECHYD PLANT AC ANABLEDD (CHAD) DIWEDDARIAD CYNLLUN

Bu i'r Cadeirydd groesawu'r Cynghorydd Sue Lent (Aelod Cabinet dros y Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd a'r Dirprwy Arweinydd), Tony Young (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol), Rosemary Whittle (Pennaeth Gweithrediadau a Chyfarwyddiaeth Iechyd Plant Cymunedol), Eve Williams (Rheolwr Newidiadau Gweithredol Cyfunol yng Nghaerdydd a'r Fro) ac Amy (Rheolwr Tîm yn y Tîm Iechyd ac Anableddau Plant) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle bu iddi ganmol y datblygiadau gyda'r cynllun Iechyd Plant ac Anabledd ac yn benodol o ran y Mynegai Anabledd, sef y cylchlythyr a anfonir at rieni i roi newyddion iddynt am yr amryw faterion os yw'r plant ar y Mynegai; a'r ffaith bod y tîm bellach yn Neuadd y Sir gyda thimau eraill Gwasanaethau'r Plant; y pwyslais ar bontio ar gyfer plant anabl a'r newidiadau o ran cymhwyster.

Bu i'r Cyfarwyddwr bwysleisio'r ffaith bod y Cynllun Dyfodol Anableddau wedi rhoi llwyfan ar gyfer trawsnewid y gwasanaethau a ddarperir i blant anabl ac i oedolion ag anghenion dwys a'r ffaith mai'r prif fater arall yw cysondeb o ran gweithredu gan y tîm Iechyd Plant ac Anabledd.

Cyflwynodd Eve Williams yr adroddiad.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Holodd Aelodau ynghylch yr amryw ddulliau cyfathrebu ar gyfer y plant anabl a'u teuluoedd oherwydd y codwyd hyn mewn fel problem yn flaenorol. Rhoddwyd gwybod i Swyddogion bod y Mynegai Anabledd yn cychwyn ac yr anogir rhieni i gofrestru gyda'u plant. Fel rhan o gynllun y gwasanaeth, cynhelir grwpiau ffocws bychain fel man cychwyn. Mae'r cyd-leoli yn Nghŷ Gwyn a'r ffaith bod Gweithwyr Cymdeithasol mewn ysgolion wedi helpu i gyfathrebu â theuluoedd. Cafwyd adborth hefyd gan y gofal seibiant yn Nhŷ Storrie.

- Gofynnwyd i Aelodau a oedd targedau ar gyfer sicrhau bod teuluoedd yn cofrestru ar y Mynegai a rhoddwyd gwybod y llunnir y targed ar sail mynegai'r Fro.
  Ystyriwyd y byddai'r canrannau'n debyg. Mae modelau eraill o ddulliau cysylltu â theuluoedd ar brawf ac mae symud y Tîm Gofal Plant i Dŷ Gwyn a'r cylchlythyr ill dau'n cyfrannu ond nid ydym yn gwybod beth yw effaith lawn hyn eto. Hyrwyddir agweddau cadarnhaol bod ar y gofrestr.

- Mynegodd aelodau bryder am y diffyg gwybodaeth o ran diagnosis, cymorth a chanlyniadau a dywedwyd bod llawer o waith yn mynd rhagddo er mwyn gosod mecanweithiau i fynd i'r afael â hyn, er bod llawer o waith eto i'r wneud. Wrth sefydlu'r gwasanaeth awtistiaeth cyfunol, cafwyd sgwrs am ddefnyddio un system/un dull gyda mapiau a fyddai'n trafod diagnosis, yr ymyriadau ac yna'r canlyniadau a buasai'r holl wybodaeth i'w chael o un lle.

- Soniodd yr Aelodau y bu cynnydd o ran gweithredu'r model gwasanaeth arhosiad byr dros nos yn Nhŷ Storrie a holwyd a yw hwn yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol.
  Rhoddwyd gwybod i'r Swyddogion bod rhestr aros ac y rheolir y galw trwy'r Panel Seibiant. Yna, dyrennir adnoddau. Mae 48 plentyn ar y llwyth achos gofal iechyd parhaus ac mae 30 yn mynd trwy'r tîm Iechyd Plant ac Anabledd ac mae nifer fechan wedi ei nodi fel rhai a fydd yn elwa o'r gwasanaeth pan ddaw lle. Mae posibilrwydd o ehangu gwasanaeth seibiant ac mae'n rhoi'r gallu i rieni gynorthwyo plant yn eu cartrefi am gyfnod hirach. Mae Taliadau Uniongyrchol yn parhau i gynyddu a chant eu defnyddio ar gyfer anghenion unigol ond mae Tŷ Storrie yn cynnig gwasanaeth seibiant i'r plant ag anghenion mwy dwys a heriol a gellir gwneud Taliadau Uniongyrchol am gymorth cymunedol yn ogystal â hynny.

CYTUNWYD – Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 36 : YMATEB Y CABINET I ADRODDIAD PLANT YMCHWILIAD CAMFANTEISIO RHYWIOL Y PWYLLGOR

Croesawodd y Cynghorydd Sue Lent (Aelod Cabinet ar gyfer Blynyddoedd Cynnar, Plant a Theuluoedd a'r Dirprwy Arweinydd) a Tony Young (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet a'r Cyfarwyddwr i wneud datganiad. Dywedodd y Cyfarwyddwr bod cynnydd calonogol o ran yr her a wynebir yn y ddinas a bu cynnydd yn y nifer o blant a atgyfeirir o ganlyniad.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Holodd Aelodau o ble'r atgyfeirir y pant;
  Dywedodd Swyddogion eu bod yn ymwybodol o ffynonellau'r atgyfeirio a'r meysydd y cânt eu hatgyfeirio ohonynt.

- Gofynnodd aelodau p'un a wneir ymchwil ai peidio i adnabod ymddygiad o fu'n risg yn flaenorol er mwyn gallu canolbwyntio ar atal.
  Dywedodd Swyddogion bod angen i bawb sy'n gysylltiedig – mewn ysgolion a chymunedau – wneud plant yn ymwybodol o'r peryglon a wynebir yn y ddinas a'r berthynas rhwng eu hymddygiad a'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas. Nid oes un dull; mae'n bwysig bod pobl yn cydnabod ei bod yn bosibl bod nifer o ffactorau yn creu niferoedd uwch o blant sydd mewn perygl o gam-fanteisio rhywiol.

- Dywedodd Aelodau y dylid cysylltu â’r gymuned ehangach: cwmnïau tacsi; bwytai tecawê; eiddo trwyddedig a lleoliadau yng nghanol y ddinas i ddatblygu strategaethau atal, ond hefyd teimlont y dylai gwestai hefyd fod ar y rhestr hon ac y dylent gynnwys hyn mewn prosesau sefydlu cyflogeion.
  Dywedodd Swyddogion bod staff sinemâu a staff gwestau wedi eu briffio.

CYTUNWYD – Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 37 : MONITRO CYLLIDEB ADRODDIAD Y PANEL

Rhoddodd Martyn Hutchings, Prif Swyddog Craffu, newyddion i Aelodau am ganlyniad y cyfarfod cyntaf gyda’r Panel Monitro'r Gyllideb.

## 38 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 6 Rhagfyr 2016 am 4.30 pm

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 pm